

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 02.01.2019
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cynghorwyr ; Dylan Jones, Derick Lock, Eirion Evans, Pamela Jones, Gethin Edwards, Arwel Nicholas, Danny Davies, Elfed Davies, Cyngorydd Sir, Irfon Jones.
Ymddiheuriadau: Neb

Rhif Agenda	Nodiadau/ Penderfyniadau	I'w weithredu gan
Croeso	Cadeirydd y Cyngor, Cyngorydd Dylan Jones yn croesawu pawb I gyfarfod cyntaf o'r flwyddyn ac yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda iddynt.	
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Nid oedd nifer y cleifion oedd yn gysylltiedig gyda Meddygfa Llandysul yn gywir; roedd yna tua 7,000 I gyd a rhyw 400 yn trosglwyddo I Furnace House.	
Praesept	Gosod Praesept 2019 - Nid ydyw'r Praespt wedi codi ers blynyddoedd ac os gwneud hynny, nid gwario'r swm ychwanegol ar heolydd a materion eraill sydd yn gyfrifoldeb I'r Cyngor Sir. Wrth greu mwy o gyllid, fyddai modd bod yn fwy cefnogol o achosion da lleol a chyfrannu mwy I'r Neuadd Goffa a'r Cae Chwarae. Er bod adnoddau'r pentref ar gael I bawb, nifer fach efallai sydd yn eu defnyddio ac o'r herwydd, symiau bach o arian a dderbynnir ganddynt. Wrth gynyddu'r Praesept a chyfrannu mwy I'r adnoddau cymunedol, fydd pawb o'r gymuned yn eu cefnogi. Wrth drafod y Praesept, dywedwyd unwaith eto gan ED , os na fydd y Cyngor Sir yn ysgwyddo eu beichiau a'u cyfrifoldebau, nid oes diben I Gyngor y Cymuned gyfarfod yn fisol. Pan trafodir yr un achosion fis ar ôl mis, gwastraff llwyr o amser pawb ac adnoddau prin y Cyngor yw hynny. DD yn cynnig mai pob 3 mis dylsa'r Cyngor gyfarfod os na fydd agwedd mwy positif yn cael ei amlygu gan y Cyngor Sir. Cytunwyd I godi'r Praesept £3.00 y flwyddyn I £25.	
Materion yn Codi	Arweinydd y Cyngor, Emllyn Dole – darllennwyd ymateb y Sir I gwynion y Gymuned.	
Gohebiaeth	Asedau Cymunedol – rhestr a grewyd gan y Cyngor Sir o asedau pob cymuned. Y bwriad yw fod adnoddau megis Neuaddau yn gallu cyhoeddu eu oriau a'u gwasanaethau I gynulleidfa ehangach.	
Cynllunio	Bwthyn – ail-adeiladu y talcen orllewinol.	
Materion Ariannol	Cyflog y Clerc, £130.60 – cytunwyd ei dalu; AN & PJ	
UFA	AN – Tyllau ar yr heol gerllaw Glannant	

	<p>GE – Dim</p> <p>PJ – Cyflwr Rhiw Graig yn parhau'n ddrwg</p> <p>EE – Dŵr ar yr heol gerllaw Gilfach Fach yn parhau I fod yn drafferthus. Amrywiaeth o arwyddion ffyrdd o gwmpas y pentref yn syrthio.</p> <p>IJ – Dim</p> <p>ED – Dim</p> <p>DD – Cwlfert Cwm Hagar wedi llenwi ac angen gwneud yn siwr fod y blychau halen wedi eu llenwi.</p> <p>DL – Ymylon cwlfert ger Maes yFelin yn mallu</p> <p>DJ – Dŵr yn cronni ar yr heol gellaw Lleine.</p>	
Cyfarfod yn gorffen	9.20	

<p>Cafwyd yn gywir :</p> <p>(Cadeirydd)</p> <p>Dyddiad :</p>	<p>Cafwyd yn gywir :</p> <p>(Ysgrifennydd)</p> <p>Dyddiad:</p>
--	--